**CYFARFOD Y CYNGOR** a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 19eg Medi 2018 yn Siambr y Cyngor, Swyddfeydd Dinesig, Ffordd Wellington, y Rhyl yn dechrau am 6.00pm.

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorydd Mrs W. M. Mullen-James (Maer)

Y Cynghorwyr B. Blakeley, Mrs. J. Butterfield YH MBE, Mrs J. Chamberlain-Jones, Mrs E. M. Chard, Ms J. Hughes, A. R. James, A.S. Johnson, B. Jones, K. R. Jones, Mrs P. M. Jones, Ms J. L. McAlpine, B. Mellor, P. Prendergast, Ms V. Roberts, A. J. Rutherford, T. Thomas, R. Turner, a Miss C. L. Williams.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref

**53. DECHRAU'R CYFARFOD A CHYHOEDDIADAU**

Cychwynnodd Caplan y Maer, y Parchedig Andy Grimwood, y cyfarfod trwy arwain pawb a oedd yn bresennol mewn gweddi.

**54. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau amn absenoldeb ar ran y Cynghorwyr Mrs D. L. King, Miss S. Roberts, a Miss H. J. Windus – Dirprwy Glerc y Dref (Gwyliau Blynyddol)

**55. SWYDD WAG CYNGHORYDD CYMUNED (WARD BRYNHEDYDD)**

Ymhellach i gofnod rhif 34 cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol a gynhaliwyd ar 5ed Medi 2018, dywedodd Clerc y Dref bod Mr. Reeve Turner wedi bod yn llwyddiannus yn yr etholiad diweddar ac wedi llofnodi'r Datganiad yn Derbyn y Swydd.

**56. CYFLWYNIAD: GIDEONS INTERNATIONAL I'R MAER**

Croeswodd y Maer Mr John Graham i'r cyfarfod.

Rhoddodd Mr Graham anerchiad byr cyn cyflwyno copïau o'r Ysgrythur i'r Maer, a'u derbyniodd gyda diolch.

**57. COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfodydd canlynol y Cyngor a'i Bwyllgorau i'w cymeradwyo fel cofnod cywir:

Cyfarfod y Cyngor - 18fed Gorffennaf 2018 - Rhifau Cofnod 38 - 52

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mrs W. M. Mullen-James ac eiliwyd gan y Cynghorydd K.R. Jones ac fe ***BENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnod cywir.*

Mewn perthynas a Chofnod rhif 45 yn ymwneud â chynnig i gyflwyno wi-fi ar y Stryd Fawr, cytynwyd y byddai hyn yn cael ei ystyried ymhellach ar y Rhaglen dan eitemau er gwybodaeth.

Pwyllgor Cynllunio - 18fed Gorffennaf 2018 - Rhifau Cofnod 13- 15.

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mrs W. M. Mullen-James ac eiliwyd gan y Cynghorydd Ms J. McAlpine ac fe ***BENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnod cywir.*

Pwyllgor Cynllunio - 5ed Medi 2018 - Rhifau Cofnod 16-19

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mrs W. M. Mullen-James ac eiliwyd gan y Cynghorydd Ms J. McAlpine ac fe ***BENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnod cywir.*

Cadarnhau neu fel arall:

Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol - 5ed Medi 2018 - Rhifau Cofnod 32-48

Cynigiwyd gan y Cynghorydd A. Rutherford ac eiliwyd gan y Cynghorydd A. James a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnod cywir a'u cadarnhau ar gyfer gweithredu.*

## 58. ADRODDIAD Y MAER

Nododd y Maer yr amrywiol ddigwyddiadau yr oedd hi a'i Dirprwy wedi eu mynychu yn ystod y mis diwethaf.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad.*

## 59. CYFLWYNIAD: PLEYDELLSMITHYMAN LIMITED: DIWEDDARIAD AR UWCHGYNLLUN CANOL TREF Y RHYL

Croesawodd y Maer Mr. Mike Horrocks o Gyngor Sir Ddinbych a Ms Sarah Wheale o Pleydellsmithyman Limited i'r cyfarfod ac i dderbyn cyflwyniad ar y cynnydd ar Uwchgynllun Canol Tref y Rhyl a gomisiynwyd gan Gyngor Sir Ddinbych.

Gwnaeth Mr. Horrocks y cyflwyniad a hysbysu'r cyfarfod:

- Bod yr ymgyrch ymgysylltu nawr wedi bod yn gweithredu am 7 mis ac wedi cynhyrchu llawer o wybodaeth gan fudiadau lleol, grwpiau ac unigolion
- Roedd y data nawr yn cael ei werthuso ond roedd wedi adnabod angen am unedau manwerthu llai, cost is
- O'r data byddai gweledigaeth ddrafft yn cael ei pharatoi ar gyfer ymgynghoriad pellach yn y flwyddyn newydd
- Cyflogi Swyddog Gorfodi newydd ar gyfer Canol Tref y Rhyl

Hysbysodd Ms. Wheale y Cyngor:

- Roedd y broses nawr wedi cyrraedd y cam lle'r oedd pobl eisiau gweld rhywbeth pendant
- Bod y datblygiadau newydd ar y promenâd wedi amlygu diffygion canol y dref
- Cafwyd sylwadau bod trethi a rhenti uchel yn prisio pobl allan o ganol y dref
- Roedd angen rhoi rheswm i bobl ddewis y Rhyl yn hytrach na chanolfannau trefi cystadleuol ac roedd adborth yn awgrymu mai manwerthu a oedd wrth graidd y dref, yn ddelfrydol gyda chymysgedd o siopau annibynnol lleol a chadwyni cenedlaethol

- Bod y Rhyl yn elwa o'i lleoliad glan y môr a oedd yn rhoi mantais bosibl dros ganolfannau manwerthu eraill
- Mai'r targed oedd denu pobl i deithio o awr a hanner i ffwrdd i ymweld
- Nid oedd penderfyniad wedi ei gymryd o ran datblygu safle Queen's Market
- Bod y dref wedi ei rhannu, dros dro, yn chwarteri y gellid eu hadnabod:
    - Chwarter y Stryd Fawr: i fod yn gymysgedd o fanwerthu a hamdden gyda chydbwysedd o gadwyni cenedlaethol a siopau annibynnol i greu Canol Tref unigryw y byddai pobl eisiau ymweld â hi. Roedd cyfarfodydd yn cael eu cynnal gyda pherchnogion Canolfan y Rhosyn Gwyn i drafod eu cynlluniau hwy at y dyfodol a gwella'r cysylltiadau rhwng y Ganolfan a'r Stryd Fawr
    - Safle Queens Market: ceisio adnabod datblygiad o ansawdd da, sy'n edrych yn ddeniadol a fyddai'n darparu amrywiaeth o fwyd a diod, hamdden, manwerthu, swyddfeydd, preswyl a mannau dinesig
    - Chwarter Queens  i ddarparu cysylltiad rhwng datblygiadau ar lan y môr a chanol y dref gan ymgorffori enw brand a sefydliadau bwyd a diod annibynnol ynghyd ag economi diogel gyda'r nos
    - Calon y Dref ger Neuadd y Dref i fod yn lle cymunedol a rennir
    - Y Chwarter Menter yn canolbwyntio ar Bodfor a Kinmelk Street i greu canolfan ar gyfer lle a rennir/lle hyblyg i entrepreneuriaid, a dod ag adeiladau yn ôl i'w defnyddio eto
    - Y Chwarter Annibynnol ar ran isaf y Stryd fawr gyda'r Cyngor Sir yn arwain trwy brynu ac adfywio safleoedd allweddol a chreu unedau llai gyda threthi busnes is a datblygu pecyn o gymorth i ddenu manwerthwyr annibynnol
- Gwella treftadaeth weledol Canol y Dref drwy Ardal Gadwraeth y Rhyl yn cael ei drafod ar hyn o bryd.
- Yr angen i bobl chwarae rhan
- Rôl bwysig digwyddiadau a gweithgareddau o ran annog pobl i'r Stryd Fawr
- Rôl mannau cyhoeddus o ran hyrwyddo canol y dref fywiog a'r angen i'r rhain fod yn ddeniadol, wedi eu cynnal a'u cadw'n dda ac yn rhydd rhag llanastr
- Gwella'r seilwaith symudiad a bod y Cyngor Sir wedi buddsoddi mewn model traffig i werthuso'r opsiynau ar gyfer trafnidiaeth
- Cynyddu nifer y bobl sy'n byw yng Nghanol y Dref trwy gynorthwyo'r sector preifat i greu cartrefi unigryw a chaffael adeiladau nad ydynt yn cael eu defnyddio'n llawn er mwyn eu trosi
- Recriwtio swyddog gorfodi penodol ar gyfer Canol y Dref
- Y byddai ymgysylltu ar yr uwchgynllun drafft yn cychwyn ym mis Ionawr 2019

Mewn ymateb i gwestiynau/sylwadau'r Aelodau, ymatebodd y Swyddogion fel a ganlyn:

- Y dylai fod yr Aelodau wedi eu hysbysu yn gynt ynglŷn â phenodiad Swyddog Gorfodi penodol ar gyfer Canol y Dref
- Cytuno bod angen delio gyda threthi busnes uchel
- Y buasent yn codi mater toiledau yng Nghanolfan y Rhosyn Gwyn yn ystod eu cyfarfod gyda pherchnogion y Ganolfan
- Nodi cyflwr y Relax Coffee House ac ystyried y posibilrwydd o'i gaffael
- Derbyn y ffaith bod diffyg mannau parcio i deuluoedd yng Nghanol y Dref
- Cydnabod y farn bod angen i'r heddlu fod yn fwy actif o ran gorfodi

- Cydnabod bod angen monitro'r parth cyhoeddus yn well
- Cydnabod y pryderon ynglŷn â darparu llety o ansawdd
- Y byddent yn barod i ddarparu diweddariad ym mis Chwefror 2019

Ar ddiwedd y cyflwyniad, diolchodd y Maer i'r siaradwyr gwadd am eu cyflwyniad.

**60. GOHEBIAETH: DEISEB STAD SPLASH POINT**

Adroddodd Clerc y Dref iddo dderbyn deiseb gan nifer o drigolion Ward Brynhedydd yn gofyn am gefnogaeth i barth cyfyngu i drigolion a chyflwyno cyfyngiad cyflymder 20mya ar gyfer stad Splash Point a gofyn am ganiatâd i anfon y ddogfen yn ffurfiol at Gyngor Sir Ddinbych fel yr awdurdod cyfrifol.

***PENDERFYNWYD*** *anfon y ddeiseb at y Cyngor Sir fel yr awdurdod cyfrifol.*

**61. AWDURDODI TALIADAU / YCHWANEGIADAU I'R RHESTR O GYFLENWYR CYMERADWY**

Ymhellach i gofnod rhif 143 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 15fed Mawrth 2017, ac yn unol â rheoliadau ariannol mabwysiedig y Cyngor, cyflwynodd Clerc y Dref Atodlen B (byddai rhestr o daliadau anrheolaidd yn cael ei rhyddhau dros y mis i ddod) a manylion un cyflenwr ychwanegol i'w ychwanegu i'r rhestr o gyflenwyr ar ôl cymeradwyaeth gan yr aelodau.

***PENDERFYNWYD***

*(a) cymeradwyo'r canlynol i gael eu talu a'u llofnodi gan ddau gynghorydd.*

| Cyflenwr | Manylion Cyflenwi | Rhif Taleb | Dyddiad | Swm £ |
|---|---|---|---|---|
| Cyngor Sir Ddinbych | Swyddfa, Ad-daliad 1 Ebrill 2018 hyd at 31 Rhagfyr 2018 | 574 | 06/09/18 | 11,469.00 |
| Conrad Office & Art | Archeb Papurach | 575 | 11/09/18 | 212.11 |
| Cyngor Sir Ddinbych | Costau Etholiad Ward Derwebn | 582 | 11/09/18 | 4,385.14 |
| Cyngor Sir Ddinbych | Cyfraniad at Ddigwyddiadau 2018/19 (Sioe Awyr, Arena a'r Nadolig) | 583 | 11/09/18 | 19,000.00 |
| **Cyfanswm Atodleb B** | | | | **£35,066.25** |

*(a) bod y cyflenwyr canlynol a ddefnyddiwyd yn flaenorol yn cael eu tynnu oddi ar y rhestr o Gyflenwyr Cymeradwy*

- *Christian Sprakes*
- *DVSC*
- *Fool's Paradise*
- *Institute for Crazy Dancing*
- *Ryan Hall*
- *School Wear Wales*
- *Steve Ashcroft*

**62. BARN ARCHWILWYR ALLANOL AR DDATGANIAD BLYNYDDOL Y CYNGOR 2017/18**

Dywedodd Clerc y Dref bod barn yr Archwilwyr Allanol i'w ystyried yng nghyfarfod heno er mwyn galluogi'r Cyngor i fodloni ei ofyniad cyfreithiol i gyhoeddi'r adroddiad cyn 30ain Medi 2018.

Fodd bynnag, nid ydym wedi derbyn yr Archwiliad Allanol ac mae ymholiadau gyda BDO wedi datgelu bod ein Harchwiliad wedi ei gyfeirio ganddynt i'r Swyddfa Archwilio am benderfyniad ar sut ddylid cofnodi cyfraniad y Cyngor Tref i'r Ganolfan S2C o fewn Cyfrifon y Cyngor.

Yn absenoldeb yr Archwiliad bydd angen i ni gyhoeddi hysbysiad ffurfiol sy'n cael ei baratoi ar hyn o bryd ac a ddarperir gan BDO yn y cwpl o wythnosau nesaf.

Pan dderbynnir barn yr Archwilwyr caiff ei gyflwyno i gyfarfod priodol nesaf y Cyngor

***PENDERFYNWYD*** *cydnabod yr adroddiad.*

## 63. EITEMAU ER GWYBODAETH: WI-FI AR STRYD FAWR Y RHYL

Ymhellach i Gofnod Rhif 57 uchod, dywedodd Clerc y Dref nad oedd yr ymarfer i adnabod safleoedd dymunol ar gyfer wi-fi am ddim a ymgymerwyd yng nghyfarfod Cyngor mis Gorffennaf wedi adnabod lleoliadau addas.

Nododd y Cynghorydd K R Jones yr angen i adnabod lleoliadau penodol yn y Stryd Fawr yn hytrach na cheisio gwasanaeth cyffredinol ledled y Rhyl ac fe:

***BENDERFYNWYD*** *awdurdodi'r Cynghorydd K R Jones i gyflwyno'r awgrymiadau a wnaed nawr, gan adnabod mynedfa'r Orsaf Reilffordd a Maes Parcio Morley a'r angen i unrhyw wasanaeth newydd flocio darparwyr presennol.*

## 64. HOLI AC ATEB

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

## 65. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

***PENDERFYNWYD*** *gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r Cyfarfod er mwyn ystyried yr eitemau busnes canlynol yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd), 1960, am resymau cyfrinachedd.*

## 66. DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL 2015

Ymhellach i Gofnod Rhif 47 y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5ed Medi 2018, cyflwynodd Clerc y Dref Adroddiad Blynyddol drafft Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Cyngor Tref y Rhyl i'w ddiwygio/gymeradwyo.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn y ddogfen a'i chyhoeddi fel Adroddiad Blynyddol Cyngor Tref y Rhyl yn amodol ar fân newidiadau a wnaaed nawr.*

## 67. TERFYNU'R CYFARFOD

Gan nad oedd unrhyw eitemau busnes pellach, dywedodd y Maer bod cyfarfod y Cyngor wedi dod i ben.

Maer:…………..…………..

Dyddiad: …………….…………..